NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Lenvatinib a sorafenib i drin canser y thyroid sydd wedi'i wahaniaethu ar ôl ïodin ymbelydrol

8 Awst 2018

Mae lenvatinib (Lenvima) and sorafenib (Nexavar) ar gael gan y GIG.  Maent yn driniaethau posibl ar gyfer canser y thyroid sy'n gwaethygu, yn ddatblygedig yn lleol neu sydd wedi'i wahaniaethu'n fetastatig (papilaidd, ffoliglaidd neu gell Hürthle) mewn oedolion os:

- na fydd eu clefyd yn ymateb i ïodin ymbelydrol
- nad ydynt wedi cael atalydd cinas tyrosin o'r blaen neu os bu'n rhaid iddynt roi'r gorau iddo o fewn 3 mis i'w ddechrau oherwydd sgil-effeithiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael levatinib neu sorafenib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Thyroid Prydain, 01423 810093
- Ymddiriedolaeth Canser Thyroid Butterfly, 01207 545469
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2885-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights